**PET(4) SAR 30**
**Y Pwyllgor Deisebau**
**Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion**
**Ymateb gan Mererid Hopwood**

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

[redacted]

4/5/2013

Annwyl Mr Powell,

**Parthed Deiseb Recriwtio Plant i'r Fyddin**

Diolch am godi'r mater uchod yn eich pwyllgor a mynd ati holi ymhellach amdano. Fel y gwyddoch, mae'n destun consyrn mawr i nifer ohonom - yn rhieni ac yn ddinasyddion.

Mae rhywun yn teimlo cywilydd ar y naill law fod gwlad sy'n ymhyfrydu yn ei thraddodiad dyngarol - un sy'n hawlio'r ymadrodd 'chwarae teg/fair play' fel arwyddair bron â bod, wedi caniatáu i'r fath sefyllfa godi. Ar y llall, mae rhywun yn teimlo trueni a chydymdeimlad â chymaint o blant ifainc, wrth i'r lluoedd arfog wthio eu hunain arnyn nhw, a hwythau mewn sefyllfa nad yw'n cynnig fawr o gyfleoedd gwaith na gyrfa iddynt.

Deallaf mai Prydain yw'r unig wlad o fewn NATO sy'n caniatáu mynediad i'r fyddin i blant 16 mlwydd oed. Mae hyn wedi cael ei gondemnio gan y Cenhedloedd Unedig. Ychydig o wledydd drwy'r byd sy'n caniatáu'r fath beth anwar, a deallaf fod Prydain, wrth ymarfer y polisi hwn, yn cadw cwmni i rai o lywodraethau mwyaf gormesol y byd.

Edrychwn ymlaen yn fawr at y dydd na fydd rhaid i'n plant ni yma yng Nghymru hyd yn oed ystyried gyrfa mewn diwydiant sy'n hawlio ei fod yn 'amddiffyn' trwy fygwth (a gweithredu) lladd. Mae hyn yn gwbl wrthun â'r syniad o wareiddiad cymodlon. Fel y dywedwyd lawer gwaith, byddai athro ysgol yn cael ei ddiarddel o'i waith am fygwth 'cadw'r heddwch' yn y dosbarth drwy guro â chansen … ac eto, ry'n ni'n caniatáu mynediad i'r union ystafell ddosbarth honno i swyddogion sy'n gweithio i fudiad sy'n bygwth 'cadw'r heddwch' drwy danio gwn a gollwng bom.

Byddwch erbyn hyn wedi derbyn y ffeithiau a'r ystadegau gwarthus. Erfyniaf arnoch nawr i arwain eich pwyllgor at wneud safiad dewr a'n rhyddhau ni o'r sefyllfa annerbyniol hwn.

Gyda diolch i chi am eich sylw caredig unwaith eto,

Yn ddiffuant

Mererid Hopwood